# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 8

CYFFREDINOL

## PENNOD 1

UNIONDEB CYMERIAD

### 134 Cofrestr buddiannau

(1) Rhaid i bob deiliad swydd perthnasol greu a chynnal cofrestr buddiannau.

(2) Rhaid i gofrestr buddiannau deiliad swydd perthnasol gynnwys ei holl fuddiannau cofrestradwy.

(3) Rhaid i ddeiliad swydd perthnasol lunio'i gofrestr buddiannau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

(4) Rhaid i ddeiliad swydd perthnasol ddiweddaru ei gofrestr buddiannau'n barhaus.

(5) Mae hynny'n cynnwys dyletswydd i gynnwys buddiant cofrestredig yn y gofrestr buddiant o fewn 4 wythnos i'r canlynol ond nid yw wedi ei gyfyngu i hynny—

(a) y buddiant yn codi, neu

(b) y deiliad swydd perthnasol yn dod yn ymwybodol o'r buddiant (os yw hynny'n digwydd ar ôl i'r buddiant godi).

### 135 Cyhoeddi cofrestrau buddiannau

(1) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) sicrhau bod copi o gofrestr buddiannau pob deiliad swydd perthnasol ar gael i'w archwilio yn swyddfa'r Comisiynydd, a

(b) sicrhau y perir bod copïau o gofrestr buddiannau pob deiliad swydd perthnasol ar gael mewn mannau eraill a thrwy ddulliau eraill (gan gynnwys dulliau electronig) sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y trefniadau ar gyfer archwilio a chael at gopïau o gofrestrau buddiannau deiliaid swyddi perthnasol yn cael eu cyhoeddi mewn modd sy'n dwyn y trefniadau hynny i sylw personau sy'n debygol yn nhyb y Comisiynydd o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant yn y cofrestrau.

(3) Rhaid i'r Dirprwy Gomisiynydd roi i'r Comisiynydd—

(a) copïau o gofrestr buddiannau'r Dirprwy Gomisiynydd, a

(b) cymorth arall,

y gall y Comisiynydd ofyn amdanynt er mwyn ei alluogi i gydymffurfio â'r ddyletswydd o dan is-adran (1).

## 136 Gwrthdrawiadau buddiannau

(1) Rhaid i ddeiliad swydd perthnasol beidio ag arfer swyddogaeth os oes ganddo fuddiant cofrestradwy sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth.

(2) Mewn achos lle y mae is-adran (1) yn atal y Comisiynydd rhag arfer swyddogaeth, rhaid iddo ddirprwyo'r swyddogaeth honno (i'r graddau y bo'n angenrheidiol i alluogi'r gwaith hwnnw o'i harfer i gael ei wneud)—

(a) i'r Dirprwy Gomisiynydd, neu

(b) i aelod arall o staff y Comisiynydd.

(3) Mewn achos lle y mae is-adran (1) yn atal y Dirprwy Gomisiynydd rhag arfer swyddogaeth, rhaid i'r Comisiynydd wneud trefniadau i'r swyddogaeth gael ei harfer gan rywun heblaw'r Dirprwy Gomisiynydd.

## 137 Dilysrwydd gweithredoedd

Nid effeithir ar ddilysrwydd gweithred deiliad swydd perthnasol gan fethiant i gydymffurfio â darpariaeth yn y Bennod hon neu a wneir o dan y Bennod hon.

## 138 Rheoliadau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau—

(a) pennu pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy at ddibenion y Bennod hon, a

(b) gwneud darpariaeth arall at ddibenion y Bennod hon.

(2) Caiff buddiannau cofrestradwy gynnwys, ymhlith pethau eraill, buddiannau personau y mae cysylltiad rhyngddynt a deiliaid swyddi perthnasol (boed yn gysylltiad teuluol, ariannol neu o unrhyw fath arall).

(3) Yn yr adran hon ystyr "buddiant" yw buddiant o unrhyw fath (gan gynnwys buddiannau ariannol, a phob gweithgaredd a swydd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).

## 139 Dehongli'r Bennod hon

Yn y Bennod hon—

***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

ystyr "buddiant cofrestradwy" ("*registrable interest*") yw buddiant cofrestradwy a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 138;

ystyr "deiliad swydd perthnasol" ("*relevant office holder*") yw—

(a) y Comisiynydd, neu

(b) y Dirprwy Gomisiynydd.